| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Nicola Kneale, Cyd-bennaeth dros dro'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Kneale |
| **Teitl** | Llywodraethu ar gyfer darparu a goruchwylio'r Cynllun Corfforaethol, a gwaith arall y Cyngor. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni yn erbyn y themâu yn y Cynllun Corfforaethol, a dulliau goruchwylio a chraffu ar gyfer Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am sut y gall Aelodau ymgysylltu â gweithgarwch ehangach y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Sicrhau bod pob Aelod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cyflawni yn erbyn themâu'r Cynllun Corfforaethol, fel yn Atodiad 1.

2.2. Sicrhau bod Aelodau'n deall amlder a fforymau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol, a'u bod yn deall eu hopsiynau ar gyfer herio a chraffu pellach.

2.3. Sicrhau bod gan Aelodau drosolwg o ymgysylltu â busnes y Cyngor sydd y tu allan i'r Cynllun Corfforaethol. Rydym yn galw hwn yn Bortffolio'r Cyngor, ac yn cyfeirio ato yn Atodiad 2.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg This document is available in English.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi deall y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys pryd a sut y bydd diweddariadau ar gynnydd yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol yn cael eu derbyn, ac opsiynau ar gyfer mewnbwn a chraffu pellach.

3.2. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi deall opsiynau ar gyfer ymgysylltu â busnes ym mhortffolio ehangach y Cyngor.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mabwysiadwyd Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych yn ffurfiol gan y Cyngor Sir ym mis Hydref 2022, ac mae’n cwmpasu’r cyfnod hyd at fis Mawrth 2027. Mae’n ddogfen strategol allweddol i’r Cyngor, sy’n cwmpasu gofynion dan dri darn o ddeddfwriaeth:

i. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol
ii. Cynllun Cydraddoldeb Strategol
iii. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau

4.2 Mae'r Cabinet wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer cyflawni yn erbyn pob un o'r naw thema yn y Cynllun Corfforaethol. Yn seiliedig ar arfer da blaenorol a gwersi a ddysgwyd, maent wedi dilyn yr egwyddorion hyn:

i. Mae'r Cabinet yn gyfrifol am fonitro a llywio'r gwaith o gyflawni ein cynllun corfforaethol;
ii. Gwahanu dyletswyddau'n glir rhwng rôl aelodau’r Cabinet a rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, er mwyn galluogi craffu effeithiol a herio'r Cabinet;
iii. Pob thema i gael ei harwain gan un Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth gan Aelodau Cabinet eraill y mae eu portffolio yn cwmpasu'r gwaith sy'n ofynnol o dan bob thema;
iv. Pob thema ac Aelod Cabinet arweiniol hefyd i gael eu cefnogi gan arweinydd Tîm Gweithredol Corfforaethol ar gyfer pob thema, a'u cefnogi i gyflawni gan Benaethiaid Gwasanaeth y mae eu swyddogaethau'n cwmpasu'r gwaith sy'n ofynnol o dan bob thema.

Mae manylion y trefniadau hyn i'w gweld yn Atodiad 1.

4.3 Yn unol â fframwaith rheoli perfformiad Cyngor Sir Ddinbych, bydd gan bob thema set glir o ddangosyddion y caiff llwyddiant ei fesur yn eu herbyn, ynghyd â rhestr o brosiectau sy'n cael eu cyflawni i gefnogi nodau'r thema. Cyflwynir adroddiad ar y rhain bob chwarter i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (bydd yr adroddiad cyntaf ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 4 Gorffennaf 2023). Yn ogystal, bydd Hunanasesiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ar ôl Chwarter 4 yn y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r dogfennau a grëwyd a'u cynulleidfa fel a ganlyn:

Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin): Adroddiad Perfformiad wedi'i rannu'n electronig gyda'r Cabinet a Chraffu Perfformiad. Disgwylir adroddiad ym mis Awst;

Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi): Adroddiad Perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, tua mis Hydref/Tachwedd bob blwyddyn;

Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr): Adroddiad Perfformiad wedi'i rannu'n electronig gyda'r Cabinet a Chraffu Perfformiad. Disgwylir adroddiad ym mis Chwefror;

Chwarter 4 (Ionawr - Mawrth): Adroddiad Perfformiad a Hunanasesiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, Craffu Perfformiad, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Hunanasesiad), a'r Cyngor, tua mis Mehefin/Gorffennaf bob blwyddyn.

4.4 Mae rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn rhan o'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ac yn nodweddiadol yn gallu gofyn cwestiynau am fanylion yr adroddiadau yn y cyfarfodydd hynny. Efallai y bydd ganddynt ymholiadau syml y gellir eu datrys ar y diwrnod neu'n fuan wedyn. Hefyd, gallant – ac fe'u hanogir i – ddefnyddio'r adroddiadau i nodi pynciau ar gyfer craffu pellach. Pe baent yn nodi pwnc yr hoffent graffu arno ymhellach, gallant ofyn am hyn drwy'r broses Atgyfeirio Craffu. Gwneir hyn trwy lenwi ffurflen Cynnig Craffu gan Aelodau sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Wrth lenwi'r ffurflen hon, mae'n hollbwysig bod aelodau'n ystyried y prawf PAPUR (a amlinellir ar gefn y ffurflen) ac yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani. Ar ôl ei chwblhau dylid cyflwyno'r ffurflen, naill ai'n electronig neu ar ffurf copi papur, i un o Gydlynwyr Craffu'r Cyngor.

4.5 Nid yw'r holl waith pwysig y mae'r Cyngor yn ei wneud (ac y bydd gan Aelodau ddiddordeb ynddo) yn cael ei sianelu drwy'r Cynllun Corfforaethol. Mewn gwirionedd, mae hynny’n wir am lawer ohono. Gelwir holl waith y Cyngor yn Bortffolio, ac mae i’w weld yn Atodiad 2. Gall pob Aelod - Cabinet neu fel arall - ddylanwadu ar ansawdd, cwmpas a’r dull o gyflwyno agweddau ar y Portffolio trwy ystod o offer. Mae’r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gynlluniau gwasanaeth, achosion busnes prosiect, polisïau, strategaethau eraill, asesiadau o effaith ar les, ac ati. Os oes gan Aelodau ddiddordeb mewn fforwm, gwasanaeth, polisi neu brosiect penodol, gallant ddarganfod mwy trwy fynychu cyfarfodydd cyhoeddus (lle bo'n berthnasol), cysylltu ag Aelodau Cabinet perthnasol a/neu Benaethiaid Gwasanaeth am ragor o wybodaeth, ac arfer eu pwerau Craffu.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a galluogi craffu arno yn effeithiol. Nid yw'n cyfrannu'n uniongyrchol at, ond yn cefnogi ethos Cyngor Perfformiad Uchel a Reolir yn Dda.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r negeseuon yn yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn ac nid yw’n gofyn am Asesiad o Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n flaenorol â’r Cabinet.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn adran 6.1, nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

11.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

11.3. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021